AMGUEDDFA CYMRU

| |
|---|
| **Cyfarfod Agored Bwrdd Ymddiriedolwyr Amgueddfa Cymru – Cofnodion** |
| **Dydd Iau 20 Mawrth 2025 am 10:30 – 15:45** |
| **Canolfan Gasgliadau Genedlaethol, Nantgarw – Ystafell y Bwrdd** |

**Ymddiheuriadau:**

***Nicky Guy, Llywodraeth Cymru***
*John Hunt, Ymddiriedolwr*
*Ameerah Mai, Ymddiriedolwr*
***Manon Maragakis, Llywodraeth Cymru***

**Aelodau'r Bwrdd yn Bresennol:**

*Kate Eden (Cadeirydd)*
*Rhys Evans*
*Hywel John*
*Owen Hathway*
*Llion Iwan*
*David Aled Jones*
*Abigail Lawrence*
*Daniel Richards*
*Freya Stannard*
*Richard Thomas*
*Jan Williams*
*Cai Wilshaw, yn bresennol ar Microsoft Teams*
*Emma Yhnell*

**Aelodau'r Tîm Gweithredol yn Bresennol:**

***Jane Richardson, Prif Weithredwr***
***Phil Bushby, Cyfarwyddwr Rhaglenni sy'n Flaenoriaeth***
***Kath Davies, Cyfarwyddwr Casgliadau ac Ymchwil***
***Nia Elias, Cyfarwyddwr Cysylltiadau a Chyllido***
***Steve Hudson, Cyfarwyddwr Cyllid ac Adnoddau***

***Nia Williams, Cyfarwyddwr Profiad, Addysg ac Ymgysylltu***

**Aelodau Ychwanegol yn Bresennol:**
***Elizabeth Connolly, Pennaeth Adnoddau Dynol a Llywodraethu Corfforaethol***
***Rhodri Davies, Pennaeth Marchnata a Chyfathrebu***
***Paul Kindred, Llywodraeth Cymru***
***Catrin Roberts, Pennaeth Cynllunio a Materion Allanol***
***Yvonne Ruelle, Pennaeth Cyllid***
***Chris Pyrah, Gweinyddwr Llywodraethu (Ysgrifenyddiaeth)***
***Ioan Davies (Cyfieithydd)***

**1. Agor y Cyfarfod**

Noddwr a Chyflwynydd: Kate Eden, Cadeirydd

I. Croeso

Croesawodd Kate Eden, Cadeirydd, bawb i'r cyfarfod a diolchodd i Alastair Willis, Uwch-guradur: Nwmismateg ac Economi Cymru a Sian Iles, Uwch-guradur Datblygu Casgliadau: Canoloesol am gyflwyno eitemau o'r casgliad i bawb a oedd yn bresennol cyn y cyfarfod.

II. Ymddiheuriadau am Absenoldeb

Cafwyd ymddiheuriadau gan John Hunt, Ymddiriedolwr, Ameerah Mai, Ymddiriedolwr, Manon Maragakis, Llywodraeth Cymru a Nicky Guy, Llywodraeth Cymru.

III. Datganiadau o Fuddiant

Nodwyd bod gan bob aelod o staff Amgueddfa Cymru a oedd yn bresennol yn y cyfarfod fuddiant ym mhapur 4.1: *Cais Cylch Cyflog.* Ni nodwyd unrhyw ddatganiadau eraill o fuddiant.

**Strategol – Strategic**

**2. Llywio Ein Dyfodol – Diweddariad Llafar**

Noddwr a Chyflwynydd: Steve Hudson, Cyfarwyddwr Cyllid ac Adnoddau

I. Cyflwynwyd yr eitem gan Steve Hudson, Cyfarwyddwr Cyllid ac Adnoddau, a nododd y canlynol:
    I. Roedd tair ffrwd waith Llywio Ein Dyfodol (LlED) yn parhau i sicrhau canlyniadau da, ac ni fyddai'r gwaith a wnaed ar Gyllideb 2025/2026 wedi bod yn bosibl heb y gwaith a wnaed fel rhan o LlED.
    II. Nodwyd bod Bwrdd y Prosiect yn dechrau trafod y broses o bontio o LlED i *Cyflawni Ein Dyfodol*, a fyddai'n arwain yn y pen draw at drin gweithgarwch LlED fel rhan o weithgarwch busnes fel arfer craidd Amgueddfa Cymru.
    III. Roedd yr holl staff yn dal i gael y wybodaeth ddiweddaraf am weithgarwch LlED drwy gyfarfodydd briffio misol, ond nodwyd bod cyfarfod nesaf Bwrdd

y Prosiect yn cael ei ohirio tan fis Ebrill 2025 er mwyn i'r holl staff gael cyfle i gael eu briffio ar y gwaith a oedd wedi'i wneud hyd yma.

IV. Yn olaf, nodwyd y byddai diweddariadau ar LIED yn y dyfodol yn cael eu cyflwyno yng nghyfarfodydd y Pwyllgor Cyllid a Pherfformiad.

**PENDERFYNWYD: YSTYRIWYD y diweddariad a CHAFWYD sicrwydd.**

---

**3. Cynllun Gweithredol 2025/2026**

Noddwr a Chyflwynydd: Steve Hudson, Cyfarwyddwr Cyllid ac Adnoddau

I. Cyflwynwyd yr eitem gan Steve Hudson, Cyfarwyddwr Cyllid ac Adnoddau, a nododd y canlynol:
    I. Roedd y cynllun gweithredol a oedd yn cael ei gyflwyno yn llai ac yn fwy strategol na'r rhai a gyflwynwyd yn y gorffennol, er mwyn hwyluso trosolwg strategol gan y Bwrdd yn well.
    II. Nodwyd hefyd mai 2025/2026 oedd pumed flwyddyn y cynllun pum mlynedd cyfredol ac y byddai'r flwyddyn yn cael ei defnyddio fel cyfnod pontio ar gyfer llunio'r cynllun pum mlynedd nesaf a fyddai'n para tan 2030/2031.

II. Yn dilyn hynny, cafwyd trafodaeth lle y nodwyd y canlynol:
    I. Byddai cynlluniau gweithredol yn y dyfodol yn canolbwyntio'n fwy ar Ddangosyddion Perfformiad Allweddol (DPAau), a fyddai'n cael eu pennu a'u cefnogi gan y tîm data, a oedd yn brysur yn adeiladu ar y prosesau a oedd ar waith a'r gwaith cadarn roedd wedi'i wneud hyd yn hyn.
    II. Nodwyd y byddai'n fuddiol pe gallai'r staff, yn hytrach na dilyn dull 'fesul llinell', nodi prosiectau allweddol mewn cynlluniau gweithredol yn y dyfodol, ynghyd â DPAau ar wahân ar eu cyfer, er mwyn i Fwrdd yr Ymddiriedolwr allu canolbwyntio'n benodol ar y darnau mwy hyn sy'n strategol hanfodol.
    III. Mewn ymateb, nodwyd y byddai'r Uwch-dîm Arwain yn ystyried beth fyddai'n cael ei gyflwyno fel prosiect allweddol, ochr yn ochr ag ailddatblygu safle Amgueddfa Lechi Cymru yn Llanberis a CELF, a oedd yn cael eu cyflwyno fel eitemau agenda unigol ym mhob un o gyfarfodydd Bwrdd yr Ymddiriedolwyr ar hyn o bryd.

**CAM GWEITHREDU**: Yr Uwch-dîm Arwain i drafod prosiectau allweddol y gellid tynnu sylw atynt er mwyn i Fwrdd yr Ymddiriedolwyr ganolbwyntio arnynt.

IV. Yn fwy cyffredinol o ran DPAau, nodwyd y byddai dadansoddiad manylach o'r DPAau roedd y staff yn dymuno eu pennu a'u monitro yn cael ei gyflwyno maes o law, ond y byddai'r rhain yn symud i ffwrdd o ystadegau ar gamau cyflym ymlaen ac yn canolbwyntio'n fwy strategol ar effaith Amgueddfa Cymru ledled Cymru gyfan. Cydnabuwyd y byddai hyn yn newid diwylliannol o fewn y sefydliad, ac y byddai angen mireinio prosesau wrth i'r gwaith ddatblygu. Nodwyd y byddai cyfraniad yr Ymddiriedolwyr at y datblygiadau hyn drwy'r strwythur pwyllgorau newydd yn amhrisiadwy.

V. Hefyd, nodwyd y byddai'n rhaid cynnal trafodaethau gyda Llywodraeth Cymru i drafod safbwynt y Cytundeb Fframwaith ynghylch DPAau, a fyddai, pe na bai'n cael ei ddiwygio, yn golygu na fyddai DPAau newydd Amgueddfa Cymru yn cael eu hystyried, ac y byddai'n rhaid i staff fonitro a chynhyrchu data ar DPAau ychwanegol at ddibenion meintioli Llywodraeth Cymru yn unig o bosibl. Nodwyd ei bod yn ofynnol cyflwyno adroddiadau i Lywodraeth Cymru ar ystadegau DPA mwy gweithredol yr oedd Amgueddfa Cymru yn dymuno symud i ffwrdd ohonynt.

VI. Gan fod Cymru ar drothwy'r cyfnod cyn etholiad nesaf y Senedd, roedd yn bwysig bod yr holl bleidiau gwleidyddol yn deall y darnau mawr strategol o waith a oedd yn cael eu gwneud ar bob un o safleoedd Amgueddfa Cymru ac o fewn Amgueddfa Cymru yn gyffredinol.

VII. Oherwydd y gred mai un peth y byddai Llywodraeth Cymru yn canolbwyntio arno yn y dyfodol agos o ran Cyrff Hyd Braich fyddai amrywiaeth ar fyrddau, gofynnwyd sut y gallai Amgueddfa Cymru fynd i'r afael â'r ffocws hwn.

VIII. Mewn ymateb, nodwyd bod ystadegau'r Bwrdd yn cael eu cynnwys yn yr adroddiad amrywiaeth blynyddol a bod nifer o fesurau ar waith i hwyluso ceisiadau gan ymgeiswyr amrywiol am leoedd gwag ar y Bwrdd ac y byddai'r gallu i gyfethol aelodau allanol i bob agwedd ar y strwythur pwyllgorau newydd yn amhrisiadwy o ran rhoi profiad i ddarpar ymgeiswyr o brosesau llywodraethu Amgueddfa Cymru. Fodd bynnag, cydnabuwyd bod hyd cyfnod swydd Ymddiriedolwyr, a'r broses hollt ar gyfer eu penodi, yn heriol.

IX. Rhoddwyd sicrwydd i'r Ymddiriedolwyr y byddai'r holl agweddau ar y Cynllun Gweithredol, a'r cynllun pum mlynedd nesaf pan gaiff ei ddatblygu, yn cael eu mapio ar draws y strwythur pwyllgorau er mwyn sicrhau y byddai craffu'n digwydd ar bob agwedd. Eglurwyd mai dim ond prosiectau allweddol a meysydd gwaith lle y byddai angen i Fwrdd yr Ymddiriedolwyr fod yn ymwybodol o faterion fyddai'n cael eu cynnwys yn rheolaidd ar agendâu cyfarfodydd Bwrdd yr Ymddiriedolwyr.

**PENDERFYNWYD: CYMERADWYWYD Cynllun Gweithredol 2025/2026.**

---

**4. Diweddariad ar Gyllideb 2025/2026**

Noddwr a Chyflwynydd: Steve Hudson, Cyfarwyddwr Cyllid ac Adnoddau

I. Cyflwynwyd yr eitem gan Steve Hudson, Cyfarwyddwr Cyllid ac Adnoddau, a nododd y canlynol:

    I. Esboniwyd bod y papur a'r atodiadau a gyflwynwyd yn cynrychioli'r gyllideb canol blwyddyn ar gyfer 2025/2026 ac y byddai'r strategaeth ariannol tymor hwy ar gyfer Amgueddfa Cymru yn cael ei chyflwyno yng nghyfarfod Bwrdd yr Ymddiriedolwyr ym mis Mehefin 2025.

    II. Nodwyd bod y cyd-destun ariannol ehangach yn creu anawsterau cyllidebol, gan fod ansicrwydd oherwydd etholiad y Senedd sydd ar ddod ac am ei bod yn aneglur sut y gallai toriadau cyllideb Llywodraeth y DU effeithio ar Gymru. Fodd bynnag, nodwyd y byddai Llywodraeth Cymru yn rhoi cynnydd mewn Cymorth Grant a fyddai'n galluogi gweithgarwch a recriwtio ychwanegol yn y tymor byr.

III. Dywedwyd bod cyllidebau refeniw a chyfalaf wedi cael eu gor-raglennu ers dechrau'r flwyddyn ariannol, ac esboniwyd mai'r rheswm dros hyn oedd er mwyn lleihau'r risg o fethu â gwario'r dyraniad Cymorth Grant i gyd erbyn diwedd y flwyddyn, sef rhywbeth a oedd wedi digwydd dros nifer o flynyddoedd blaenorol. Nodwyd nad oedd y dull hwn yn cyflwyno risg sylweddol ynddo'i hun, oherwydd gellid arafu gweithgarwch mewn rhai meysydd pe bai angen er mwyn lleihau gorwariant gwirioneddol mewn Cymorth Grant.

II. Yn dilyn hynny, cafwyd trafodaeth lle y nodwyd y canlynol:

I. Nid oedd Amgueddfa Cymru wedi cael y £500,000 ychwanegol gan Lywodraeth Cymru i dalu am y cynnydd mewn Yswiriant Gwladol eto. Fodd bynnag, nodwyd y dylai rhagor o wybodaeth am hyn ddod i law gan Lywodraeth Cymru yn y dyfodol agos.

II. O ran nifer y cyflogeion, cynigiwyd y byddai'n cynyddu, a nodwyd bod rhan o'r gyllideb wedi cael ei neilltuo ar gyfer recriwtio i swyddi mewn gwahanol rannau o'r sefydliad a oedd yn wag ar hyn o bryd. Cydnabuwyd y byddai angen bod yn ofalus er mwyn osgoi cynnydd sylweddol mewn costau sefydlog sy'n gysylltiedig â staffio, gan ei bod yn debygol y byddai cyllidebau'n gyfyngedig oherwydd ansicrwydd economaidd y blynyddoedd nesaf. Felly, byddai rhywfaint o gynnydd yn nifer y cyflogeion yn sgil contractau dros dro, neu drwy gontractio ymgynghorwyr ar gyfer rhaglenni unigol o weithgarwch.

III. O ran y cynnydd tybiedig o 10% mewn gweithgareddau cynhyrchu incwm, nodwyd bod Amgueddfa Cymru wedi cyrraedd y ffigur hwn oherwydd awydd i beidio â gorlethu staff tra oedd un o safleoedd yr Amgueddfa (Amgueddfa Lechi Cymru) ar gau.

IV. Nodwyd y byddai cronfeydd wrth gefn Amgueddfa Cymru a'r safbwyntiau ynghylch tynnu arian i lawr o'r cronfeydd wrth gefn yn cael eu trafod yng nghyfarfod cyntaf y Pwyllgor Cyllid a Pherfformiad.

**PENDERFYNWYD: CYMERADWYWYD Cyllideb 2025/2026.**

### 4.1 Cais Cylch Cyflog

Noddwr a Chyflwynydd: Steve Hudson, Cyfarwyddwr Cyllid ac Adnoddau

I. Cyflwynwyd yr eitem gan Steve Hudson, Cyfarwyddwr Cyllid ac Adnoddau, a nododd y canlynol:

I. Roedd y Cais Cylch Cyflog wedi cael ei baratoi ar gyfer 2025/2026, ac roedd yn cynnwys cynnydd o 3% ar gyfer pob aelod o staff ar bob graddfa.

II. Nodwyd mai effaith ariannol amcangyfrifedig hyn fyddai cynnydd o £580,000 yn y Cylch Cyflog a bod hyn yn cyflwyno rhywfaint o risg, ond y byddai'r risg yn cael ei liniaru drwy waith cynllunio'r gweithlu ac arbedion effeithlonrwydd gweithredol. Nodwyd mai rhoi'r cynnydd ar waith ym mis Ebrill 2025 fyddai orau, er mwyn osgoi gorfod rhoi ôl-daliadau i'r staff yn nes ymlaen yn y flwyddyn.

II. Yn dilyn hynny, cafwyd trafodaeth lle y nodwyd y canlynol:

I. Roedd y cynnydd o 3% yn seiliedig ar drafodaethau gyda chydweithwyr yn Llywodraeth Cymru, a oedd yn golygu y dylai Amgueddfa Cymru fod yn gyson ag arferion Llywodraeth Cymru. Nodwyd y byddai cydweithwyr mewn Cyrff Hyd Braich yn cael gwybod cyn gynted â phosibl ar ôl i Lywodraeth Cymru gytuno ar ei Chylch Cyflog ei hun. Hefyd, byddai cydweithwyr yn Llywodraeth Cymru yn ceisio rhoi gwybod i gydweithwyr mewn Cyrff Hyd Braich am newidiadau posibl i Gylch Cyflog Llywodraeth Cymru yn sgil trafodaethau Llywodraeth Cymru gyda'r Undebau Llafur.
II. Pe na bai cynnydd cyfatebol mewn Cymorth Grant yn cyd-fynd â'r cynnydd o 3% neu unrhyw gynnydd arall, byddai'r staff yn dechrau cynnal trafodaethau pellach gyda Llywodraeth Cymru.
III. Pe bai'r cynnydd yn uwch na'r disgwyl, nodwyd mai'r arfer safonol yn Amgueddfa Cymru oedd cymhwyso'r cynnydd at yr isafswm ar gyfer pob graddfa yn unig, a fyddai'n cynnig rhywfaint o hyblygrwydd i liniaru cynnydd uwch na'r disgwyl.

**PENDERFYNWYD: CYMERADWYWYD y Cais Cylch Cyflog i'w gyflwyno i Lywodraeth Cymru, a CHYMERADWYWYD y cynnig y byddai'r staff yn dechrau cynnal trafodaethau gyda'r Undebau Llafur er mwyn ceisio eu cefnogaeth o blaid y cynnydd arfaethedig o 3%.**

---

**5. Diweddariad gan y Prif Weithredwr**

Noddwr a Chyflwynydd: Jane Richardson, Prif Weithredwr

I. Cyflwynwyd yr eitem gan Jane Richardson, Prif Weithredwr, a nododd y canlynol:
    I. Roedd Amgueddfa Cymru yn symud ei ffocws er mwyn sicrhau y byddai gan y Fforwm Arweinyddiaeth, a oedd yn dod â'r Uwch-dîm Arwain a'r Penaethiaid Adran ynghyd, fwy o rôl yng ngweithrediad ac arweinyddiaeth y sefydliad. Un o'r darnau mawr cyntaf o waith y byddai'r grŵp hwnnw'n ei wneud ar y cyd oedd ymarfer cyfosod a datblygu polisïau, a fyddai wedyn yn cael ei fwydo i mewn i'r pwyllgorau perthnasol.
    II. Roedd y ffaith bod safleoedd Amgueddfa Cymru yn cael ceisiadau i gynnal nifer o ddigwyddiadau allanol uchel eu proffil, fel Cynhadledd Cymdeithas yr Amgueddfeydd 2025, yn dyst i'r ffordd newydd roedd Amgueddfa Cymru yn mynd ati i rannu ei diben a'i huchelgais â rhanddeiliaid allanol a phartïon â diddordeb.
    III. Roedd y gwaith a oedd yn cael ei wneud gan y Gyfarwyddiaeth Cysylltiadau a Chyllido yn galluogi'r Prif Weithredwr i ymgysylltu mewn modd ystyrlon ac effeithiol â'r gymuned amgueddfeydd ehangach yn y DU a'r sector diwylliannol yn fwy cyffredinol. Roedd y gwaith wedi dangos bod angen clir i arweinwyr diwylliannol yng Nghymru gydweithio â'i gilydd i gyfleu'r hyn y mae diwylliant yn ei olygu i bobl Cymru. Fel rhan o hyn, roedd trafodaethau'n mynd rhagddynt i ddatblygu Deddf Diwylliant i Gymru y gellid ei chynnig i Lywodraeth Cymru.
    IV. Roedd Eleri Evans, sef y Pennaeth Dysgu a Dehongli a oedd ar fin ymddeol, wedi ennill Gwobr Cyflawniad Oes Rhagorol gan Ymddiriedolaeth Elusennol Marsh.

II. Yn dilyn hynny, cafwyd trafodaeth lle y nodwyd y canlynol:

  I. O ran y gwaith roedd Amgueddfa Cymru wedi dechrau arno mewn partneriaeth â New Citizen Project, nodwyd bod y gwaith hwn wedi bod yn hanfodol er mwyn newid y diwylliant yn fewnol. Fodd bynnag, gan nad oedd capasiti mewnol yn bodoli o fewn Amgueddfa Cymru i barhau â hyn, roedd gwaith wrthi'n mynd rhagddo i weld a ellid creu hyblygrwydd caffael i wahodd New Citizen Project yn ôl er mwyn helpu i wreiddio'r newid cadarnhaol yn y sefydliad.
  II. Roedd ffordd newydd o feddwl yn strategol wedi cael ei rhoi ar waith yn Amgueddfa Cymru, a oedd yn ystyried effaith ar lefel ryngwladol, genedlaethol a lleol â phwysigrwydd strategol cyfartal. Nodwyd bod ailymuno â Chyngor Cenedlaethol y Cyfarwyddwyr Amgueddfeydd wedi bod yn fuddiol iawn, gan alluogi Amgueddfa Cymru i ailgysylltu â'r sector ledled y DU.
  III. Roedd gwaith ar y Fframwaith Marchnata newydd yn dal i fynd rhagddo a rhoddwyd sicrwydd y byddai'r fframwaith terfynol o safon uchel, yn gadarn ac wedi'i wreiddio yn Amgueddfa Cymru, ac y byddai hynny'n sicrhau bod holl waith cyfathrebu Amgueddfa Cymru yn cael ei wneud drwy lens sy'n canolbwyntio ar farchnata. Byddai diweddariad pellach a llawnach yn cael ei gyflwyno yn un o gyfarfodydd Bwrdd yr Ymddiriedolwyr yn y dyfodol pan fyddai prosiect y Fframwaith Marchnata wedi symud ymhellach yn ei flaen.

**PENDERFYNWYD: NODWYD yr eitem.**

---

**6. Diweddariad gan y Cadeirydd**

Noddwr a Chyflwynydd: Kate Eden, Cadeirydd

I. Cyflwynwyd yr eitem gan Kate Eden, Cadeirydd, a nododd y canlynol:

  I. Diolch i'r Gyfarwyddiaeth Cysylltiadau a Chyllido am ei gwaith i gefnogi gweithgareddau allanol y Cadeirydd.
  II. Roedd Freya Stannard a Cai Wilshaw wedi cael eu hailbenodi'n Ymddiriedolwyr Amgueddfa Cymru a Benodir gan Lywodraeth Cymru am ail dymor.
  III. Roedd y digwyddiad diweddar *Gwen John 150: y casgliad stiwdio ar lwyfan byd-eang* yn Llundain wedi arddangos rhywfaint o'r arbenigedd o'r radd flaenaf a oedd yn rhan o dîm Amgueddfa Cymru.

**PENDERFYNWYD: NODWYD yr eitem.**

## Corfforaethol – Corporate

**7. Diweddariad Ariannol – Adroddiad Ariannol Diwedd Mis Ionawr**

Noddwr a Chyflwynydd: Steve Hudson, Cyfarwyddwr Cyllid ac Adnoddau

I. Cyflwynwyd yr eitem gan Steve Hudson, Cyfarwyddwr Cyllid ac Adnoddau, a nododd fod Amgueddfa Cymru yn rhagweld tanwariant sylweddol ar hyn o bryd, a hynny'n bennaf oherwydd nifer o swyddi heb eu llenwi a oedd wedi'u cynnwys yn y

gyllideb staffio, ynghyd ag ad-daliad bil cyfleustodau o tuag £800,000. Roedd y Tîm Cyllid yn ymgymryd â gweithgareddau mantoli ac roedd gwariant adrannau wedi cael ei gynyddu'n sylweddol ym mis Chwefror a mis Mawrth er mwyn gwrthbwyso'r tanwariant hwn a sicrhau y byddai'r holl Gymorth Grant a ddyrannwyd yn cael ei wario erbyn diwedd y flwyddyn.

II. Yn dilyn hynny, cafwyd trafodaeth lle y nodwyd y canlynol:

    I. O ran incwm a gynhyrchir drwy weithgarwch ffilmio masnachol, er bod tyfu'r gweithgarwch hwn yn ddyhead, roedd natur ffilmio masnachol yn golygu na ellid cyfrif am hyn fel mater o drefn mewn amcanestyniadau cynhyrchu incwm. Fodd bynnag, roedd y Gyfarwyddiaeth Cysylltiadau a Chyllido wedi datblygu cysylltiadau cadarnhaol â rheolwyr lleoliad, a sefydliadau fel Screen Cymru, er mwyn iddynt ddeall gofodau gweithredol Amgueddfa Cymru a safon ei staff digwyddiadau.

    II. Nodwyd bod y newid mewn gweithgarwch cynhyrchu ym mhob rhan o ddiwydiant teledu'r DU yn golygu ei bod yn debygol y byddai cyfleoedd yn codi'n llai aml, ond y byddai ganddynt gyllidebau mwy.

    III. Roedd y Rheolwr Llogi Masnachol Grŵp wedi gwneud darn helaeth o waith dadansoddi a oedd wedi helpu'r staff i ddeall pa fathau o ddigwyddiadau y dylid eu blaenoriaethu er mwyn cynhyrchu mwy o incwm o weithgarwch llogi ar gyfer digwyddiadau.

    IV. Yn olaf, nodwyd y byddai'n fuddiol i Fwrdd yr Ymddiriedolwyr ymgysylltu â Bernard Donoghue OBE, Cyfarwyddwr Cymdeithas yr Atyniadau Blaenllaw i Ymwelwyr, a fyddai'n gallu rhannu gwybodaeth am newidiadau yn y sector.

**CAM GWEITHREDU**: Y Prif Weithredwr i gysylltu â Bernard Donoghue OBE i'w wahodd i un o gyfarfodydd Bwrdd yr Ymddiriedolwyr yn y dyfodol.

**PENDERFYNWYD: YSTYRIWYD y diweddariad a CHAFWYD sicrwydd.**

---

**8. Diweddariad ar Brosiect Canmlwyddiant Amgueddfa Genedlaethol Caerdydd (NMC 100)**

Noddwr a Chyflwynydd: Phil Bushby, Cyfarwyddwr Rhaglenni sy'n Flaenoriaeth

I. Cyflwynwyd yr eitem gan Phil Bushby, Cyfarwyddwr Rhaglenni sy'n Flaenoriaeth, a nododd y canlynol:

    I. Byddai gwaith llywodraethu prosiect NMC 100 yn cael ei wneud gan Fwrdd Prosiect penodedig, a fyddai'n bwydo i mewn i'r Pwyllgor Pobl, Adnoddau a Diwylliant er mwyn iddo graffu arno, yn hytrach na bod Bwrdd yr Ymddiriedolwyr yn sefydlu Pwyllgor Parhaol neu Bwyllgor Cynghori ar wahân ar hyn o bryd.

    II. Rhoddwyd sicrwydd bod y Cymorth Grant cyfalaf ychwanegol o £1,300,000 a ddyrannwyd gan Lywodraeth Cymru ar gyfer y prosiect wedi cael ei glustnodi i gael ei wario erbyn diwedd blwyddyn ariannol 2024/2025. Yn ychwanegol at hynny, nodwyd bod cyllid ychwanegol wedi cael ei sicrhau ar gyfer blwyddyn ariannol 2025/2026 hefyd, ac mai'r amcangyfrif o gyfanswm cost y prosiect oedd rhwng £30,000,000 a £45,000,000.

III. Byddai'r cyllid ychwanegol ar gyfer 2024/2025 a 2025/2026 yn galluogi'r sefydliad i gwblhau rhai darnau o waith cyweirio brys sy'n gysylltiedig â'r prosiect, yn ogystal â llunio achos busnes terfynol y prosiect. Fodd bynnag, nodwyd bod etholiad y Senedd yn 2026 a'r rhagolygon economaidd amcanestynedig yn cyflwyno nifer o elfennau o ansicrwydd, ond rhoddwyd sicrwydd y byddai'r rhain yn cael sylw yn yr achos busnes terfynol.

IV. Yn olaf, er nad oedd yn anochel nac yn rheidrwydd y byddai safle Amgueddfa Genedlaethol Caerdydd yn cau fel rhan o'r prosiect, nodwyd ei bod yn briodol dwyn y posibilrwydd hwn i sylw'r Ymddiriedolwyr cyn gynted â phosibl er mwyn i bob agwedd ar y posibilrwydd o gau'r safle gael ei hystyried yn briodol fel rhan o'r gyfres o opsiynau a fyddai ar gael i dîm y prosiect.

II. Yn dilyn hynny, cafwyd trafodaeth lle y nodwyd y canlynol:

I. Roedd prosiect NMC 100 nid yn unig yn cynnig cyfle i adfywio safle Amgueddfa Genedlaethol Caerdydd, ond hefyd yn gyfle i edrych yn ôl dros 100 mlynedd cyntaf Amgueddfa Cymru a rhagweld y 100 mlynedd nesaf fel trafodaeth strategol ynglŷn â holl safleoedd Amgueddfa Cymru. Fel rhan o hyn, nodwyd mai rhan fawr o'r sail resymegol ar gyfer prosiect NMC 100, yn ogystal â chwblhau gwaith brys, oedd sicrhau y byddai safle Amgueddfa Genedlaethol Caerdydd yn parhau i fod yn addas i'r diben ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol, yn hytrach na lliniaru problemau a fyddai'n codi eto yn y dyfodol.

II. Gallai tîm prosiect NMC 100 fanteisio ar y llu o arferion gorau a gwersi a ddysgwyd yn fewnol yn sgil cwblhau'r gwaith cyfalaf yn Sain Ffagan yn llwyddiannus, a phrosiect Amgueddfa Lechi Cymru Llanberis a oedd wrthi'n mynd rhagddo.

III. Nodwyd y byddai angen bod yn ofalus wrth lunio'r strategaeth gyfathrebu ar gyfer y prosiect cyfan, gyda negeseuon i rannu'r wybodaeth ddiweddaraf â chynulleidfaoedd mewnol a rhoi gwybod i randdeiliaid allanol am y cynnydd a wneir a'r cynlluniau sydd yn yr arfaeth. Fel rhan o hyn, nodwyd y dylid defnyddio etholiad y Senedd fel cyfle i gyfleu gofynion cyllido Amgueddfa Genedlaethol Caerdydd, yn ogystal ag agweddau eraill ar ystad Amgueddfa Cymru.

IV. O ran y posibilrwydd o gau safle Amgueddfa Genedlaethol Caerdydd yn rhannol neu'n gyfan gwbl, nodwyd na fyddai cau'r safle ym Mharc Cathays yn golygu na fyddai gofod ar gael i arddangos casgliadau yng Nghaerdydd, ac y byddai opsiynau eraill yn cael eu hystyried. Fodd bynnag, cydnabuwyd ei bod yn rhy gynnar i amlinellu unrhyw opsiynau posibl ac y byddai set lawn o opsiynau'n cael ei chynnig i Fwrdd yr Ymddiriedolwyr ar adeg briodol er mwyn iddo ei hystyried yn y dyfodol.

V. Er y gall prosiect NMC 100 arwain at achosion unigol wedi'u cynllunio o gau rhannau o safle Parc Cathays neu'r safle cyfan, nodwyd bod yr arian a oedd eisoes wedi cael ei ddarparu gan Lywodraeth Cymru yn lliniaru'r risg o gau gorfodol, am gyfnod amhenodol, i ddelio â gwaith cyweirio brys.

VI. Pa opsiwn bynnag y byddai Bwrdd y Prosiect a Bwrdd yr Ymddiriedolwyr yn ei ystyried a'i argymell, pwysleisiwyd bod mynediad am ddim at y casgliadau ac ysbrydoli addysg a mwynhad yn dal yn rhan graidd o weledigaeth Amgueddfa Cymru, ac y byddai unrhyw achosion posibl o gau'r safle yn cael

eu lliniaru drwy wneud gwaith allgymorth ychwanegol, a all hyd yn oed arwain at gyfleoedd ychwanegol i ehangu'r hyn roedd y staff eisoes yn ei wneud yn y maes hwn.

**PENDERFYNWYD: YSTYRIWYD y diweddariad a CHAFWYD sicrwydd.**

---

**9. Cyfathrebu â Rhanddeiliaid 2025/2026 – Diweddariad Llafar**

Noddwr a Chyflwynydd: Nia Elias, Cyfarwyddwr Cysylltiadau a Chyllido a Catrin Roberts, Pennaeth Cysylltiadau Allanol a Chyllido

I. Cyflwynwyd yr eitem gan Nia Elias, Cyfarwyddwr Cysylltiadau a Chyllido a Catrin Roberts, Pennaeth Cysylltiadau Allanol a Chyllido a nododd y canlynol:
    I. Roedd y Gyfarwyddiaeth Cysylltiadau a Chyllido yn y broses o gynllunio'r dull ymgysylltu ar gyfer etholiad nesaf y Senedd yn 2026 a byddai Bwrdd yr Ymddiriedolwyr yn cael y wybodaeth ddiweddaraf am y dull hwn ac yn cael ei wahodd i fewnbynnu iddo wrth iddo ddatblygu.
    II. Nodwyd y byddai cyflwyno system bleidleisio newydd yn arwain at rai newidiadau sylweddol i gyfansoddiad y Senedd, gyda'r cynnydd yn nifer yr aelodau o 60 i 96 a'r newid o 40 o etholaethau a phum rhanbarth i 16 o etholaethau newydd.
    III. Nodwyd y byddai'r staff yn gweithio'n drawsbleidiol er mwyn sicrhau bod yr holl bleidiau gwleidyddol yn ymwybodol o Amgueddfa Cymru, ei hanghenion a'i huchelgeisiau, gan na ellid gwneud rhagdybiaethau ynglŷn â chyfansoddiad y Senedd newydd. Byddent hefyd yn casglu gwybodaeth er mwyn sicrhau ein bod yn barod i gael dylanwad ar y broses o lunio maniffestos.
    IV. Roedd y gwaith casglu gwybodaeth eisoes yn mynd rhagddo, er mwyn i Amgueddfa Cymru allu cael dylanwad ar y broses o lunio maniffestos pleidiau pe bai'n cael cyfle i wneud hynny, ac roedd negeseuon a strategaeth gyfathrebu gysylltiedig yn cael eu paratoi er mwyn diolch i Aelodau o'r Senedd na fyddent yn sefyll i gael eu hailethol a chroesawu Aelodau newydd ar ôl yr etholiad, a chyflwyno Amgueddfa Cymru iddynt.

II. Yn dilyn hynny, cafwyd trafodaeth lle y nodwyd y canlynol:
    I. Dylai strategaeth Amgueddfa Cymru ar gyfer ymdrin â'r etholiad gael ei rhannu â'r staff a'r Ymddiriedolwyr cyn gynted ag y bydd yn barod, er mwyn i bawb o fewn Amgueddfa Cymru fod yn ymwybodol o safbwynt y sefydliad a gallu ymateb i ymholiadau gan randdeiliaid neu wybod at bwy y dylid anfon ymholiadau ymlaen os bydd angen.
    II. Nodwyd, gan fod awydd a diddordebau pleidiau gwleidyddol yn amrywio, nad oedd Amgueddfa Cymru yn bwriadu cyhoeddi maniffesto yn nodi safbwynt y sefydliad ar hyn o bryd. Fodd bynnag, roedd gwybodaeth yn cael ei chasglu er mwyn i'r staff allu cyfeirio darpar Aelodau a phleidiau’r Senedd at y meysydd lle mae'r mwyaf o angen pan fyddent yn ymgysylltu â nhw.
    III. Gan fod disgwyl i lawer o Aelodau'r Senedd beidio â sefyll yn yr etholiad, nodwyd ei bod yn debygol y byddai etholiad 2026 yn arwain at lwyth gwaith trymach na'r arfer i'r Gyfarwyddiaeth Cysylltiadau a Chyllido, gan y byddai'n

rhaid gwneud gwaith ychwanegol er mwyn dod i adnabod ymgeiswyr newydd, na fydd ganddynt gefndir blaenorol mewn gwleidyddiaeth o bosibl. Nodwyd hefyd y gallai mewnlifiad disgwyliedig o Aelodau newydd i'r Senedd arwain at lefel uwch o graffu ar Amgueddfa Cymru.

**PENDERFYNWYD: YSTYRIWYD y diweddariad a CHAFWYD sicrwydd.**

---

**10. Diweddariad ar Ymweliad y Cyfarwyddwr Casgliadau ac Ymchwil â Japan**

Noddwr a Chyflwynydd: Kath Davies, Cyfarwyddwr Casgliadau ac Ymchwil

I. Cyflwynwyd yr eitem gan Kath Davies, Cyfarwyddwr Casgliadau ac Ymchwil, a nododd y canlynol:
    I. Digwyddodd yr ymweliad ym mis Ionawr 2025 ac roedd yn cael ei ystyried yn un llawer mwy cadarnhaol na'r un a gynhaliwyd yn 2023, gan fod llawer o amser wedi cael ei dreulio yn datblygu'r berthynas yn y cyfamser.
    II. Roedd trafodaethau cadarnhaol wedi cael eu cynnal ynghylch sut y gallai Amgueddfa Cymru weithio gydag Amgueddfa Gelf Lywyddiaethol Oita, gan gynnwys trafod y posibilrwydd o gyfnewid artistiaid.

II. Yn dilyn hynny, cafwyd trafodaeth lle y nodwyd y canlynol:
    I. Roedd yr ymweliad wedi cynnig cyfle gwerthfawr i gyfnewid profiadau ynglŷn â hygyrchedd, a byddai gweithdy rhithwir yn cael ei drefnu lle y gallai staff Amgueddfa Cymru rannu gwybodaeth am greu amgueddfa lai elitaidd a mwy cynhwysol.
    **II.** Roedd cynlluniau'n cael eu datblygu i lofnodi Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth wedi'i ddiweddaru, a fyddai'n cael ei gyflwyno i Fwrdd yr Ymddiriedolwyr i'w gymeradwyo, a byddai Maer a Dirprwy Faer Himeji yn ymweld ag Amgueddfa Cymru ym mis Tachwedd 2025.

**PENDERFYNWYD: YSTYRIWYD y diweddariad a CHAFWYD sicrwydd.**

---

**11. Eitemau i'w Dileu o'r Casgliadau**

Noddwr a Chyflwynydd: Kath Davies, Cyfarwyddwr Casgliadau ac Ymchwil

I. Cyflwynwyd yr eitem gan Kath Davies, Cyfarwyddwr Casgliadau ac Ymchwil, a nododd y canlynol:
    I. Yn achos nifer o'r eitemau a oedd yn cael eu hargymell i gael eu dileu o'r casgliadau, sef eitemau a gasglwyd yn y 1970au a'r 1980au i'r casgliadau hanes ac archaeoleg yn bennaf, nid oedd fawr ddim gwybodaeth am eu cefndir na'u tarddiad, os o gwbl, ac nid oedd rhai ohonynt wedi cael eu gwneud yn rhan o'r casgliad yn ffurfiol. Roedd gwaith yn mynd rhagddo i ddod o hyd i eitemau eraill tebyg er mwyn gallu eu dileu hwythau o'r casgliadau hefyd, pe ystyrid bod hynny'n angenrheidiol, neu eu hintegreiddio'n fwy ffurfiol yng nghasgliadau Amgueddfa Cymru.
    II. Credid bod cannoedd o eitemau o'r fath, felly cynigiwyd y byddai Bwrdd yr Ymddiriedolwyr yn cael gwybod bod eitemau nad oeddent yn rhan o'r

casgliadau wedi cael eu gwaredu, yn hytrach na'i bod yn rhaid iddynt gymeradwyo hynny'n ffurfiol.

II. Nodwyd bod yr eitemau a gyflwynwyd i'w dileu o'r casgliadau fel a ganlyn:

Cyfnodolion i'w Gwaredu

I. Nifer o gyfnodolion dyblyg, wedi dyddio neu wedi'u difrodi o Lyfrgell Amgueddfa Cymru, yr oedd Grŵp Datblygu'r Casgliadau yn argymell eu dileu.

Casgliadau Diwydiant a Thrafnidiaeth

I. Cyf. 6.23, Paneli Waliau a Rhanwyr Swyddfa Hanner Uchder Pren, ddim yn rhan o'r casgliad.
II. Cyf. 10.1, Tipler Tram Pwll Glo, ddim yn rhan o'r casgliad.
III. Cyf. 11.111, Delwedd Lloeren o Gymru, ddim yn rhan o'r casgliad.
IV. Cyf. 12.22 (1) a 12.22 (2), Canonau Amddiffyn y Glannau 2m o Hyd, ddim yn rhan o'r casgliad.
V. Cyf. 12.148, Amgylchynau Lle Tân Marmor, ddim yn rhan o'r casgliad.
VI. Cyf. 14.24 (1) – 14.24 (5), 14.46 a 14.47, Paneli Canllaw Pont Haearn Bwrw a Bracedi Haearn Bwrw gyda chydrannau cysylltiedig, ddim yn rhan o'r casgliad.
VII. 1992.327, Peiriant Torri Gêr

Casgliadau Gwyddorau Naturiol

I. NMW.Z.1993.053.00018 ac NMW.Z.1993.053.00414, *Malwod Llawchwith*
II. C.2012.002.72 ac C.2014.008.65, Sbesimenau Cennau
III. NMW 25.40 ac NMW 25.421, Canghennau Impio Coed Ffrwythau

**PENDERFYNWYD: CYMERADWYWYD y cynnig i'r eitemau a amlinellir yn y papur gael eu dileu o'r casgliadau.**

**CYMERADWYWYD y cynnig ond i roi gwybod i Fwrdd yr Ymddiriedolwyr ar ôl i'r eitemau nad oeddent yn rhan o'r casgliadau islaw'r llinell gael eu gwaredu.**

## Safleoedd a Phrojectau Mawr – Sites and Major Projects

### 12. Ailddatblygu Llanberis – Adroddiad ar Gynnydd

Noddwr a Chyflwynydd: Phil Bushby, Cyfarwyddwr Rhaglenni sy'n Flaenoriaeth

I. Cyflwynwyd yr eitem gan Phil Bushby, Cyfarwyddwr Rhaglenni sy'n Flaenoriaeth, a nododd y canlynol:

    I. Roedd cydsyniad adeilad rhestredig a chaniatâd cynllunio wedi cael eu sicrhau, roedd adolygiad archwilio mewnol â sicrwydd sylweddol wedi dod i law gan TIAA, roedd y cais i Gronfa Treftadaeth y Loteri Genedlaethol wedi cael ei gyflwyno, ac roedd amgueddfeydd dros dro bellach ar waith ledled y

Gogledd. Roedd yr Adolygiad Gateway terfynol wedi cael asesiad gwyrdd hefyd.

   II. Cam nesaf y prosiect fyddai penodi'r contractwr i gwblhau'r gwaith. Roedd y rhestr o ymgeiswyr i'w hystyried wedi cael ei thorri i lawr i ddau, ac roedd yn debygol y byddai penderfyniad yn cael ei wneud yn y dyfodol agos yn dilyn asesiad trylwyr.
   III. Roedd bwlch cyllido'r prosiect wedi cael ei gau i raddau helaeth, gan fod £23,000,000 o gyllid bellach wedi'i sicrhau. Fodd bynnag, byddai'n rhaid gwneud cais i'r Gronfa Ffyniant Bro i ofyn am estyniad i'r cyfnod sydd ar gael i wario'r arian grant a gafwyd.

II. Yn dilyn hynny, cafwyd trafodaeth lle y nodwyd y canlynol:
   I. Roedd y grant ychwanegol gan Lywodraeth Cymru o £2,000,000 a swm ychwanegol o £1,000,000 os bydd angen ar gyfer y prosiect wedi cael eu cynnwys yng nghyllideb Llywodraeth Cymru, a byddai'r arian hwn yn cael ei ddarparu ar ôl i achos busnes llawn gael ei dderbyn.
   II. Byddai'r cais am estyniad i'r Gronfa Ffyniant Bro yn cael ei wneud ar ran Amgueddfa Cymru gan Gyngor Gwynedd, a oedd yn gobeithio cael estyniad i'r cyfnod ar gyfer ei grant cyfan, yr oedd grant Amgueddfa Lechi Cymru Llanberis yn rhan ohono. Nodwyd lefel uchel o hyder y byddai'r estyniad hwn yn cael ei gymeradwyo.
   III. O ran atebion storio, nodwyd bod papur opsiynau wedi cael ei ddrafftio a bod yr Uwch-dîm Arwain wedi craffu arno. Roedd papur arall manylach wrthi'n cael ei baratoi, a byddai'n cael ei ddosbarthu i Fwrdd yr Ymddiriedolwyr maes o law.
   IV. Nodwyd y byddai Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Mewnol Amgueddfa Lechi Cymru yn cyfarfod nesaf yn y Gogledd ar 14 Mai 2025 ac y byddai'n cynnal ymweliadau â'r safle fel rhan o hyn.

**CAM GWEITHREDU**: Y Cyfarwyddwr Rhaglenni â Blaenoriaeth i estyn gwahoddiad ffurfiol i'r holl Ymddiriedolwyr i'r cyfarfod a'r ymweliadau â'r safle ar 14 Mai pe baent yn dymuno hynny.

**PENDERFYNWYD: YSTYRIWYD y diweddariad a CHAFWYD sicrwydd.**

---

### 13. Diweddariad ar yr Oriel Celf Gyfoes Genedlaethol i Gymru / CELF

Noddwr a Chyflwynydd: Kath Davies, Cyfarwyddwr Casgliadau ac Ymchwil

I. Cyn yr eitem, nododd y Cadeirydd na fyddai gofyn i Fwrdd yr Ymddiriedolwyr gymeradwyo'r Model Gweithredu ar gyfer y Dyfodol a'r Cynllun Pontio, gan nad oedd yr eitemau hyn yn barod i'r Ymddiriedolwyr eu hystyried. Fodd bynnag, nodwyd y byddai gofyn i'r Ymddiriedolwyr gymeradwyo'r eitemau hyn drwy ohebiaeth gan na ellid aros tan gyfarfod y Bwrdd ym mis Mehefin 2025.
II. Wedyn, cyflwynwyd yr eitem gan Kath Davies, Cyfarwyddwr Casgliadau ac Ymchwil, a nododd y canlynol:

I. Roedd y prosiect ar ganol y pedwerydd adolygiad Gateway, a dylai'r canlyniad fod yn hysbys erbyn 27 Mawrth 2025.

II. Y bwriad oedd y byddai CELF yn symud draw i'r model gweithredu newydd yn ystod y chwe mis nesaf ac mai oedi cyn cytuno ar y trefniadau trosolwg a llywodraethu oedd y rheswm dros yr oedi cyn cyflwyno'r cynllun hwn. Roedd trafodaeth gadarnhaol wedi cael ei chynnal yng nghyfarfod diwethaf Bwrdd y Prosiect lle y daethpwyd i gytundeb. Felly, roedd y model llywodraethu wrthi'n cael ei ddrafftio.

III. Roedd Llywodraeth Cymru wedi darparu cyllideb o £350,000 a swm ychwanegol o £45,000 i ddiwallu anghenion cyfalaf ar gyfer y cyfnod pontio a blwyddyn gyntaf y prosiect. Fodd bynnag, nodwyd bod hyn yn llai na'r hyn y gobeithiwyd amdano, ond y cytunwyd y byddai Amgueddfa Cymru yn cynyddu ei chyfraniad i wneud iawn am y diffyg.

IV. Cyn ymrwymo i'r rhaglen o weithgarwch ar gyfer 2026/2027, byddai Amgueddfa Cymru yn cynnal adolygiad o effaith CELF a goblygiadau cyllidebol y prosiect ar ddiwedd 2025/2026. Teimlid bod hyn yn gam angenrheidiol oherwydd natur annisgwyl y diffyg a'r risg i gyllidebau'r dyfodol yn sgil hyn.

III. Yn dilyn hynny, cafwyd trafodaeth lle y nodwyd y canlynol:

I. Byddai'r holl adroddiadau mewn perthynas â CELF yn cael eu cyflwyno i Fwrdd yr Ymddiriedolwyr er mwyn iddynt graffu arnynt.

II. Cynigiwyd y dylid trefnu sesiwn ychwanegol awr o hyd, ar ôl i'r model gweithredu ar gyfer y dyfodol ddod i law, er mwyn esbonio'r cynigion i'r Ymddiriedolwyr.

**CAM GWEITHREDU**: Sesiwn ar y Model Gweithredu ar gyfer y Dyfodol i gael ei threfnu ar ôl i'r model gael ei gwblhau.

**CAM GWEITHREDU**: Holl aelodau Bwrdd yr Ymddiriedolwyr i gael eu gwahodd i ddigwyddiadau lansio sy'n gysylltiedig â CELF, er mwyn sicrhau presenoldeb Amgueddfa Cymru yn yr achlysuron hyn.

**PENDERFYNWYD: YSTYRIWYD y diweddariad a CHAFWYD sicrwydd.**

## Llywodraethu / Governance

### 14. Diweddariad ar Risg a'r Gofrestr Risg

Noddwr a Chyflwynydd: Steve Hudson, Cyfarwyddwr Cyllid ac Adnoddau

I. Cyflwynwyd yr eitem gan Steve Hudson, Cyfarwyddwr Cyllid ac Adnoddau, a nododd y canlynol:

I. Roedd Amgueddfa Cymru wedi cael ei thargedu gan ymosodiad atal gwasanaeth gwasgaredig a gafodd ei rwystro oherwydd y mesurau rheoli a oedd ar waith a'r buddsoddiadau a oedd wedi cael eu gwneud am fod hyn yn cael ei ystyried yn risg lefel uchel i'r sefydliad. Er bod gwersi wedi cael eu dysgu yn sgil y digwyddiad hwn, roedd cadernid yr amddiffynfeydd

seiberddiogelwch wedi cael ei ddangos ac roedd y buddsoddiad wedi cael ei gyfiawnhau'n llwyr.

    II. Nodwyd bod lles y staff yn risg benodol, ac roedd angen gwneud gwaith i sicrhau dyraniadau digonol yn y gyllideb er mwyn sicrhau bod llwythi gwaith a straen yn cael eu rheoli'n briodol.

II. Yn dilyn hynny, cafwyd trafodaeth lle y nodwyd y canlynol:

    I. Roedd angen cael trafodaeth ar Archwaeth Risg yn un o gyfarfodydd Bwrdd yr Ymddiriedolwyr yn y dyfodol.

**CAM GWEITHREDU**: Sesiwn ar Archwaeth Risg i gael ei hychwanegu at agenda cyfarfod Bwrdd yr Ymddiriedolwyr ym mis Medi 2025.

**CAM GWEITHREDU**: Y Cyfarwyddwr Cyllid a Pherfformiad a'r Pennaeth Digidol i ystyried priodoldeb cynnwys trafodaeth ar y Risg Seiberddiogelwch fel rhan o Agenda Agored Bwrdd yr Ymddiriedolwyr. Byddai asesiad o hyn yn cael ei gyflwyno yng nghyfarfod y Pwyllgor Archwilio, Risg a Sicrwydd (ARAC) ar 15 Mai 2025.

**PENDERFYNWYD: YSTYRIWYD y diweddariad a CHAFWYD sicrwydd.**

---

**15. Cylchoedd Gorchwyl ar gyfer y Strwythur Pwyllgorau Newydd**

Noddwr a Chyflwynydd: Elizabeth Connolly, Pennaeth Adnoddau Dynol a Llywodraethu Corfforaethol

I. Cyn yr eitem, atgoffodd y Cadeirydd bawb a oedd yn bresennol fod cyfansoddiad y pwyllgorau newydd eisoes wedi cael ei ddatblygu a bod Bwrdd yr Ymddiriedolwyr wedi cytuno arno. Cydnabuwyd y byddai angen i elfennau o'r strwythur newydd gael eu mireinio ac y byddai Cadeiryddion y pwyllgorau newydd yn gweithio'n agos gyda'r Tîm Llywodraethu, yr Uwch-dîm Arwain ac aelodau'r pwyllgorau i sicrhau y caiff y gwersi i'w dysgu eu cofnodi'n ddigonol ar gyfer yr adolygiad blynyddol cyntaf o bob pwyllgor.

II. Cyflwynwyd yr eitem gan Elizabeth Connolly, Pennaeth Adnoddau Dynol a Llywodraethu Corfforaethol, a ddiolchodd i'r holl Ymddiriedolwyr a oedd wedi cyflwyno sylwadau ar y Cylchoedd Gorchwyl i'w hystyried cyn y cyfarfod.

III. Yn dilyn hynny, cafwyd trafodaeth lle y nodwyd y canlynol:

    I. Roedd mwy o waith i'w wneud ar ddiffinio'r awdurdodau ariannol dirprwyedig ar gyfer y strwythur pwyllgorau newydd a byddai diweddariad pellach ar hyn yn cael ei roi yng nghyfarfod Bwrdd yr Ymddiriedolwyr ym mis Mehefin 2025.

    II. Er mwyn osgoi dyblygu a bylchau yn y strwythur pwyllgorau, byddai Cyd-gyfarfod Cadeiryddion yn cael ei gynnal unwaith bob chwarter er mwyn sicrhau bod gwaith y pwyllgorau newydd yn cyd-fynd a'i gilydd.

**CAM GWEITHREDU**: Cyd-gyfarfod Cadeiryddion i gael ei drefnu unwaith bob chwarter.

**PENDERFYNWYD: CYMERADWYWYD y Cylchoedd Gorchwyl ar gyfer y canlynol:**

- **Pwyllgor Cyllid a Pherfformiad**
- **Pwyllgor Pobl, Adnoddau a Diwylliant**
- **Pwyllgor Addysg ac Ymgysylltu**
- **Pwyllgor Cydnabyddiaeth Ariannol**

---

**16. Argymhellion Panel yr Adolygiad Teilwredig**

Noddwr a Chyflwynydd: Elizabeth Connolly, Pennaeth Adnoddau Dynol a Llywodraethu Corfforaethol a Chris Pyrah, Gweinyddwr Llywodraethu

**16.1 Fframwaith Llywodraethu Corfforaethol a Safonau**

I. Cyflwynwyd yr eitem gan Chris Pyrah, Gweinyddwr Llywodraethu, a nododd y canlynol:
   I. Roedd Pwyllgor Gorchwyl a Gorffen yr Adolygiad Teilwredig wedi cymeradwyo yn ei gyfarfod ar 28 Tachwedd 2024 y dylai'r Fframwaith Llywodraethu Corfforaethol a Safonau gael ei ailysgrifennu i adlewyrchu'r hyn a amlinellir yn Argymhelliad 2, sef: *...Cod Ymarfer Llywodraethu Corfforaethol a Safonau diwygiedig, cyfoes a symlach.*
   II. Yn unol â hynny, roedd y Fframwaith wedi cael ei ailysgrifennu er mwyn lleihau ei faint a'r defnydd o iaith ailadroddus; tynnu allan yr atodiadau, a fyddai'n parhau i fodoli fel dogfennau ar wahân; cael gwared ar y Cod Ymddygiad ar gyfer Ymddiriedolwyr, a fyddai'n parhau i fodoli fel dogfen ar wahân.

II. Yn dilyn hynny, cafwyd trafodaeth lle y nodwyd y canlynol:
   I. Byddai'r Fframwaith yn ddogfen ragarweiniol ddefnyddiol i staff ac aelodau o Fwrdd yr Ymddiriedolwyr, gan roi trosolwg iddynt o'r disgwyliadau o ran llywodraethu ar gyfer llawer o agweddau ar Amgueddfa Cymru.
   II. Gofynnwyd am linellau ychwanegol yn adrannau'r Prif Weithredwr a'r Cadeirydd ar eiriolaeth allanol ac ymestyn bywyd sifil yng Nghymru.

**CAM GWEITHREDU**: Llinellau ychwanegol i gael eu cynnwys yn adrannau'r Prif Weithredwr a'r Cadeirydd ar eiriolaeth allanol ac ymestyn bywyd sifil yng Nghymru.

**16.2 Rhestr o Gydymffurfiaeth â'r Cod Llywodraethu i Elusennau Mawr**

I. Cyflwynwyd yr eitem gan Chris Pyrah, Gweinyddwr Llywodraethu, a nododd y canlynol:
   I. Yn unol ag Argymhelliad 5, paratowyd Rhestr o Gydymffurfiaeth ddrafft ar gyfer cyfarfod Pwyllgor Gorchwyl a Gorffen yr Adolygiad Teilwredig ar 28 Tachwedd 2024. Cymeradwyodd y pwyllgor y defnydd o'r Rhestr o Gydymffurfiaeth.
   II. Yn dilyn ymarfer gwerthuso cyntaf a gynhaliwyd gan staff Amgueddfa Cymru, rhoddwyd cymeradwyaeth yng nghyfarfod Pwyllgor Gorchwyl a Gorffen yr Adolygiad Teilwredig ar 11 Chwefror 2025 yn argymell y dylai Bwrdd yr Ymddiriedolwyr fabwysiadu'r Rhestr o Gydymffurfiaeth.

III. Ar ôl iddi gael ei mabwysiadu, byddai'r staff wedyn yn gweithio gyda Bwrdd yr Ymddiriedolwyr i gwblhau'r adrannau ar ganlyniadau allweddol yn y dogfennau. Hefyd, nodwyd bod y ddogfen yn cael ei hystyried yn adnodd gwerthuso parhaus yn hytrach na gwiriad o'r sefyllfa ar un adeg benodol. Felly, byddai'r staff yn sicrhau bod amserlen reolaidd o adolygu'r Rhestr o Gydymffurfiaeth yn cael ei hintegreiddio yng nghylch llywodraethu Bwrdd yr Ymddiriedolwyr a'i is-bwyllgorau.

II. Yn dilyn hynny, cafwyd trafodaeth lle y nodwyd y canlynol:

I. Er nad oedd hon yn ddogfen statudol, byddai'r Rhestr o Gydymffurfiaeth yn adnodd da i ddangos llywodraethu da i Bwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon, a Chysylltiadau Rhyngwladol y Senedd, y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus (PAPAC) a'r Comisiwn Elusennau.

**16.3 Diweddariad ar yr Argymhellion**

I. Cyflwynwyd yr eitem gan Chris Pyrah, Gweinyddwr Llywodraethu, a nododd y canlynol:

I. Roedd Amgueddfa Cymru wedi ymrwymo i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Comisiwn Elusennau ar gynnydd o ran rhoi argymhellion Panel yr Adolygiad Teilwredig ar waith erbyn diwedd blwyddyn ariannol 2024/2025.

II. O'r 77 o argymhellion gwreiddiol a wnaed yn Adroddiad Terfynol Panel yr Adolygiad Teilwredig, roedd 68 wedi cael eu nodi naill ai fel rhai a oedd wedi'u cwblhau neu fel busnes fel arfer ac roedd naw argymhelliad wedi'u nodi fel rhai a oedd yn dal i fynd rhagddynt, yn amodol ar adolygiad terfynol.

III. Roedd Pwyllgor Gorchwyl a Gorffen yr Adolygiad Teilwredig wedi bod yn craffu'n rheolaidd ar y naw argymhelliad hyn a oedd yn dal i fynd rhagddynt, ac roedd y pwyllgor yn fodlon, er nad oedd yr argymhellion hyn yn cael eu hystyried yn rhai a oedd wedi'u cwblhau, a hynny oherwydd eu dibyniaeth ar ffactorau allanol yn bennaf, fod Amgueddfa Cymru wedi gwneud cynnydd yn unol â chynnwys ac ysbryd yr argymhellion hyn i'r graddau y gallai wneud hynny ar hyn o bryd.

IV. Er mwyn paratoi ar gyfer diwedd y flwyddyn ariannol, roedd staff a phartneriaid yn Llywodraeth Cymru yn gweithio ar gyfosod gwybodaeth derfynol am yr holl argymhellion mewn fformat y gellid ei gyflwyno i'r Comisiwn Elusennau er mwyn ei hysbysu am y gwaith a oedd wedi cael ei wneud a rhoi sicrwydd bod yr argymhellion wedi cael eu hystyried a'u rhoi ar waith yn drwyadl.

II. Yn dilyn hynny, cafwyd trafodaeth lle y nodwyd y canlynol:

I. Byddai'r ddogfen derfynol yn cael ei rhannu â Bwrdd yr Ymddiriedolwyr i'w nodi yn ei gyfarfod ym mis Mehefin 2025.

II. Nid oedd cynlluniau i roi cyhoeddusrwydd i'r ffaith bod proses yr Adolygiad Teilwredig wedi'i chwblhau, gan fod Amgueddfa Cymru wedi symud ymlaen ymhell y tu hwnt i'r sefyllfa yr oedd ynddi ar adeg yr adolygiad.

III. Byddai gwaith craffu priodol ar yr Adolygiad Teilwredig yn cael ei wneud yn y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon, a Chysylltiadau Rhyngwladol.

**PENDERFYNWYD: CYMERADWYWYD yr eitemau canlynol:**

- **Fframwaith Llywodraethu Corfforaethol a Safonau, yn amodol ar yr ychwanegiad y gofynnwyd amdano.**
- **Rhestr o Gydymffurfiaeth â'r Cod Llywodraethu i Elusennau Mawr**

**PENDERFYNWYD: CEFNOGWYD y cynnydd a oedd yn cael ei wneud o ran argymhellion Panel yr Adolygiad Teilwredig.**

---

## 17. Adroddiad ar Gydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant

Noddwr a Chyflwynydd: Elizabeth Connolly, Pennaeth Adnoddau Dynol a Llywodraethu Corfforaethol

I. Cyflwynwyd yr eitem gan Elizabeth Connolly, Pennaeth Adnoddau Dynol a Llywodraethu Corfforaethol, a gyflwynodd yr adroddiad i Fwrdd yr Ymddiriedolwyr.

**PENDERFYNWYD: YSTYRIWYD y diweddariad a CHAFWYD sicrwydd.**

### 17.1 Amcanion Cydraddoldeb Strategol

Noddwr a Chyflwynydd: Elizabeth Connolly, Pennaeth Adnoddau Dynol a Llywodraethu Corfforaethol

I. Cyflwynwyd yr eitem gan Elizabeth Connolly, Pennaeth Adnoddau Dynol a Llywodraethu Corfforaethol, a gyflwynodd yr Amcanion Cydraddoldeb Strategol, gan nodi bod newidiadau a awgrymwyd yng nghyfarfod y Pwyllgor Cynllunio, Perfformiad ac Adnoddau ar 18 Chwefror 2025 wedi cael eu hymgorffori.

**PENDERFYNWYD: CYMERADWYWYD yr Amcanion Cydraddoldeb Strategol.**

---

## 18. Diweddariad Llafar gan Lywodraeth Cymru

Cyflwynydd: Paul Kindred, Llywodraeth Cymru

I. Cyflwynwyd yr eitem gan Paul Kindred, Llywodraeth Cymru, a nododd y canlynol:
    I. Roedd y blaenoriaethau ar gyfer diwylliant yn cael eu paratoi ar gyfer y Cabinet, a rhagwelid y byddent yn cael eu cyhoeddi yn ystod gwanwyn 2025.
    II. Roedd yr is-adran wedi cael ei hailstrwythuro, gan arwain at grwpio'r Gymraeg, CADW, Diwylliant, y Celfyddydau a Chwaraeon gyda'i gilydd. Roedd Cyfarwyddwr newydd wedi cael ei benodi, a byddai rhagor o wybodaeth yn cael ei rhannu pan fyddai ar gael.

**PENDERFYNWYD: NODWYD yr eitem.**

**19. Adolygu Cofnodion**

Noddwr a Chyflwynydd: Kate Eden, Cadeirydd

I. Cafodd cofnodion Cyfarfod Cyhoeddus blaenorol Bwrdd yr Ymddiriedolwyr, a gynhaliwyd ar 12 Rhagfyr 2024, eu hadolygu a'u cymeradwyo.

**PENDERFYNWYD: CYMERADWYWYD cofnodion cyfarfod Bwrdd yr Ymddiriedolwyr ar 12 Rhagfyr 2024 fel cofnod cywir o'r cyfarfod.**

---

**20. Adolygu Log Camau Gweithredu'r Cyfarfod Agored**

Noddwr a Chyflwynydd: Chris Pyrah, Gweinyddwr Llywodraethu

I. Cafodd yr eitemau ar Log Camau Gweithredu'r Cyfarfod Agored eu dwyn i sylw'r Ymddiriedolwyr.

**PENDERFYNWYD: NODWYD y Log Camau Gweithredu a'r cynnydd o ran cyflawni'r camau gweithredu o'r cyfarfod blaenorol.**

---

**21. Cofnodion o Bwyllgorau Sefydlog**

- **Cofnodion y Pwyllgor Archwilio, Risg a Sicrwydd (ARAC) – 13 Tachwedd 2024**
- **Cofnodion y Pwyllgor Cynllunio, Perfformiad ac Adnoddau (PPRC) – 14 Tachwedd 2024**
- **Cofnodion y Pwyllgor Penodiadau a Chydnabyddiaeth Ariannol (ARC) – 28 Tachwedd 2024**

Noddwr a Chyflwynydd: Elizabeth Connolly, Pennaeth Adnoddau Dynol a Llywodraethu Corfforaethol

I. Cafodd cofnodion y Pwyllgorau Sefydlog a gyflwynwyd yn y cyfarfod eu hadolygu a'u cymeradwyo.

**PENDERFYNWYD: CYMERADWYWYD cofnodion cyfarfod ARAC ar 13 Tachwedd 2024, cyfarfod PPRC ar 14 Tachwedd a chyfarfod ARC ar 28 Tachwedd fel cofnod cywir o'r cyfarfodydd.**

---

**22. Cofnodion o Bwyllgorau Cynghori**

- **Pwyllgor Gorchwyl a Gorffen yr Adolygiad Teilwredig – 28 Tachwedd 2024**
- **Pwyllgor Gorchwyl a Gorffen yr Adolygiad Teilwredig – 11 Chwefror 2025**

Noddwr a Chyflwynydd: Elizabeth Connolly, Pennaeth Adnoddau Dynol a Llywodraethu Corfforaethol

I. Cafodd cofnodion y Pwyllgorau Cynghori a gyflwynwyd yn y cyfarfod eu hadolygu a'u cymeradwyo.

**PENDERFYNWYD: CYMERADWYWYD cofnodion cyfarfodydd Pwyllgor Gorchwyl a Gorffen yr Adolygiad Teilwredig ar 28 Tachwedd 2024 ac 11 Chwefror 2025 fel cofnod cywir o'r cyfarfodydd.**

---

## 23. Unrhyw Fater Arall

Noddwr a Chyflwynydd: Kate Eden, Cadeirydd

Roedd un eitem ychwanegol o dan Unrhyw Fater Arall wedi cael ei chynnig cyn y cyfarfod:

23.1 Addasiad i Bensiynau

Noddwr a Chyflwynydd: Elizabeth Connolly, Pennaeth Adnoddau Dynol a Llywodraethu Corfforaethol

I. Cyflwynwyd yr eitem gan Elizabeth Connolly, Pennaeth Adnoddau Dynol a Llywodraethu Corfforaethol, a nododd y canlynol:
    I. Yn 2017, nodwyd bod gan 16 o aelodau'r cynllun naill ai gyfraniadau coll neu gyfraniadau anghywir, oherwydd gwallau mewn prosesau wrth ddechrau cyflogaeth, gwallau gan ein darparwr cyflogres, neu wallau dynol.
    II. Cyfanswm y cyfraniadau coll gan y cyflogwr oedd £28,084.32 ac mae'n rhaid i'r swm hwn gael ei dalu er mwyn cydymffurfio â'r rheoliadau. Cyfanswm y cyfraniadau coll gan gyflogeion oedd £10,999.92. Byddai angen rhoi gwybod i Archwilwyr y Cynllun am y cyfraniadau coll ac mae'n bosibl y byddai angen rhoi gwybod i'r Rheoleiddiwr Pensiynau hefyd.
    III. Cynigiwyd y dylai Amgueddfa Cymru dalu'r cyfraniadau coll gan gyflogeion yn ogystal â'r cyfraniadau coll gan y cyflogwr gan fod llawer o bobl wedi gadael y sefydliad ac y gallent hawlio niwed.

**PENDERFYNWYD: CYMERADWYWYD yr Addasiad i Bensiynau.**

---

**Diwedd Cyfarfod Cyhoeddus y Bwrdd**